Tlodi Mislif yn y Gymuned

Mae'r Adran Addysg wedi derbyn grant gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael a thlodi mislif yn y gymuned ac yn ein hysgolion. Dyma'r cynlluniau sydd yn y sir sy'n galluogi merched i gael nwyddau hylendid yn rhad ac am ddim:

Mae gweithwyr **TRAC 11-24** yn gallu dosbarthu pecynau eco gyfeillgar i ferched ifanc sy'n fregus, o gefndiroedd difreintiedig neu wedi eu dieithrio o addysg prif lif. Yn ystod y pandemig mae'r tim wedi bod yn dosbarthu i gartrefi y bobl ifanc ac yn hysbysu fod deunyddiau ar gael.
Gweler y linc:
https://www.facebook.com/222797051109904/posts/3101215769934670/?d=w

Mae stoc amrywiol o ddeunyddiau mislif eco gyfeillgar yn y **canolfannau Dechrau'n Deg** ar gyfer gweithwyr i'w dosbarthu i famau/merched sydd ar incwm isel. Mae chwe chanolfan o'r fath ar draws Gwynedd sy'n cefnogi teuluoedd. Bydd gweithwyr Dechrau'n Deg, Tim o Amgylch y Teulu a Teuluoedd yn Gyntaf yn gallu rhannu deunyddiau am ddim i ferched sydd eu hangen mewn modd urddasol. Yn ystod y pandemig bydd y ddarpariaeth yn parhau i fod ar gael.

Roedd yna fwriad i sicrhau bod **Llyfrgelloedd Gwynedd** (13 ohonynt ar draws y sir) yn bwynt canolog i gynnig nwyddau hylendid am ddim i bob merch sydd eu hangen am ba bynnag reswm gan gynnwys rhesymau sosio-economaidd. Yn ystod y pandemig gan nad yw'r Llyfrgelloedd ar agor ar hyn o bryd mae trefniadau ar droed i sicrhau bod y deunyddiau hyn ar gael i **fanciau bwyd** ar draws y sir i sicrhau fod ganddyn nhw gyflenwad digonol o nwyddau hylendid.

Mae modd hefyd cysylltu gydag **ysgolion lleol** i gael gwybodaeth am becynau o ddeunyddiau mislif. Mae grant y Llywodraeth wedi galluogi'r Adran Addysg i ddarparu nwyddau i bob merch o flwyddyn 5 i flwyddyn 13 yn ysgolion y sir. Mae modd cysylltu gyda'r ysgolion unigol i holi ymhellach neu gyda Diane Jones yn yr Adran Addysg dianejones3@gwynedd.llyw.cymru